Tasg 3

# Beth ydych chi'n feddwl o …?

Rydych chi'n mynd i gymharu 4 math o fwyd tebyg, e.e.:

- bisgedi siocled tebyg gan 4 cwmni gwahanol
- creision yr un blas gan 4 cwmni gwahanol
- iogwrt yr un blas gan 4 cwmni gwahanol.

1. Rhaid i un grŵp / yr athro / athrawes roi'r bwyd ar blatiau – **Plât A, Plât B, Plât C, Plât Ch.** Peidiwch dweud enw'r cwmni.
2. Rhowch blât i bob grŵp.
3. Rhaid i bob grŵp flasu'r bwyd.
4. Rhaid i bawb ysgrifennu eu barn mewn grid.

| | Barn |
|---|---|
| **Plât A** | |
| **Plât B** | |
| **Plât C** | |
| **Plât Ch** | |

# CREISION GWAHANOL

Dw i'n hoffi … achos …

Mae … yn …

Mae … braidd yn …

Mae'n well gen i … na …

Mae … yn eitha …

Mae … yn rhy …

Mae'n well gyda fi … na …

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| tebyg | similar | cwmni | company |
| yr un blas | the same flavour | gwahanol | different |

5. Rhaid i bawb yn y grŵp drafod y bwyd.

Beth ydych chi'n feddwl o ...?

Beth wyt ti'n feddwl o ...?

Ydych chi'n hoffi ...?

Wyt ti'n hoffi ...?

Rhaid llenwi'r grid:

| | Barn y grŵp |
|---|---|
| **Plât A** | |
| **Plât B** | |
| **Plât C** | |
| **Plât Ch** | |

6. Rhaid i'r dosbarth drafod y bwyd:

| | |
|---|---|
| Beth ydy'r hoff fwyd?<br><br>Faint sy'n hoffi'r bwyd yna?<br><br>Pa ganran (%) o'r dosbarth sy'n hoffi'r bwyd yna? | |
| Pam? | |
| Pa fwyd sy'n dod yn ail?<br><br>Faint sy'n hoffi'r bwyd yna?<br><br>Pa ganran (%) o'r dosbarth sy'n hoffi'r bwyd yna? | |
| Pam? | |
| Pa fwyd sy'n dod yn drydydd?<br><br>Faint sy'n hoffi'r bwyd yna?<br><br>Pa ganran (%) o'r dosbarth sy'n hoffi'r bwyd yna? | |

| | |
|---|---|
| Pam? | |
| Pa fwyd sy'n dod yn bedwerydd?<br><br>Faint sy'n hoffi'r bwyd yna?<br><br>Pa ganran (%) o'r dosbarth sy'n hoffi'r bwyd yna? | |
| Pam? | |

7. Gwnewch siart gylch i ddangos y canlyniadau.
8. Beth ydy'r bwyd ar y platiau? Pa gwmni?

| |
|---|
| |